# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **12 Tachwedd 2024** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Diweddariad: Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr Cymru** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Rhodri Jones, Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth** |

**1. PENDERFYNIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ystyried yr adroddiad, cynnig sylwadau, a derbyn yr hyn a gynigir.

**2. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

2.1 Mae Awdurdodau Lleol yn darparu'r gefnogaeth mae holl gynghorwyr ei hangen i gyflawni eu rôl. Mae sicrhau cefnogaeth a datblygiad i Gynghorwyr yn allweddol bwysig yng Nghyngor Gwynedd. Er mwyn ein cynorthwyo i asesu ein darpariaeth, rydym wedi dewis defnyddio Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr Cymru sydd wedi ei ddarparu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

2.2 Yn hanesyddol, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn dilyn arweiniad y GLlLC drwy sicrhau asesiad Siarter Cymru a oedd yn asesu manylion am y gefnogaeth a roddwyd i gynghorwyr. Roedd adolygiad diweddar ohono wedi amlygu'r angen i ddod a'r Siarter i ben, er mwyn sefydlu fframwaith newydd sy'n adlewyrchu dull mwy blaengar o gynorthwyo a chefnogi cynghorwyr.

2.3 Mae'r Fframwaith newydd hwn, Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr Cymru, wedi'i rannu yn dri maes eang sy'n cynrychioli'r gwahanol agweddau o waith cynghorwyr a'u cyfrifoldebau – Democratiaeth, Cymuned a Dysgu a Datblygu.

2.4 Mae'r defnydd o'r Fframwaith yn gwbl wirfoddol er mwyn sicrhau bod trefniadau'r Cyngor ar gefnogaeth i gynghorwyr o'r safon uchaf ac yn addas i bwrpas.

2.5 Bydd y Fframwaith yn cael ei adolygu'n achlysurol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaethau presennol.

## 3 Sefydlu'r Fframwaith yng Ngwynedd: Dysgu a Datblygu

3.1 Cynhaliwyd cyfarfod aml-leoliad gyda chynrychiolwyr y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 19 Medi 2024 er mwyn rhannu barn, sylwadau a syniadau am y darpariaeth Dysgu a Datblygu presennol.

3.2 Mae'r Fframwaith yn awgrymu cwestiynau ar nifer o bynciau o fewn y prif feysydd a gellir eu gweld yn Atodiad 1. er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer cynghorwyr yn safonol. Ar gyfer y maes Dysgu a Datblygu, mae'r prif feysydd yn cynnwys:

- Strategaeth Datblygu Cynghorwyr
- Adolygiadau datblygu personol
- Rhaglen dysgu a datblygu
- Rhaglen Sefydlu
- Ansawdd datblygiad
- Cyfranogiad
- Dysgu oddi wrth eraill

3.3 Cynhaliwyd trafodaeth fanwl ar y pynciau a nodi yn 3.2 ac mae'r prif ganfyddiadau i'w gweld yn Atodiad 2.

## 4 Camau Nesaf

4.1 Bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal er mwyn trafod materion Democratiaeth. Bydd hyn yn gyfle i rannu sylwadau a syniadau pellach ar ddarpariaeth cefnogaeth Democratiaeth, Cyfreithiol ac Etholiadol yng Nghyngor Gwynedd.

4.2 Gobeithir adrodd ar sylwadau'r cyfarfod hwnnw yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, cyn mynd ati i drafod a manylu ar ddarpariaeth a chefnogaeth Gymunedol sydd ar gael i gynghorwyr Gwynedd.

---

**Atodiad 1:** Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr Cymru

**Atodiad 2:** Crynodeb o drafodaethau ar y gefnogaeth o fewn y maes Dysgu a Datblygu